Arweiniad y Cymoedd Gwyrdd i Reoliadau Gwasgu Ffrwythau
Cyngor Sir Powys

Mae'r Cymoedd Gwyrdd wedi cysylltu ag adran Diogelwch a Safonau Bwyd Cyngor Sir Powys i lunio'r arweiniad hwn ar hanfodion y rheoliadau ar wasgu eich ffrwythau eich hun.

<u>Cynhyrchu Sudd neu Seidr at eich defnydd personol yn unig:</u>
Os mai dim ond chi fydd yn yfed y sudd nid oes rhaid i chi gymryd unrhyw gamau penodol. Fodd bynnag, cynghorir chi i ddilyn canllawiau paratoi bwyd synhwyrol:

- Golchi pob ffrwyth yn drylwyr gyda dŵr yfed glân,
- Dim ond defnyddio ffrwythau y byddech chi'n eu bwyta, dim rhai wedi pydru!
- Cadw'r man paratoi yn lân,
- Cadw gorchudd ar y cynnyrch bob amser,
- Gweithio mewn lle nad oes llygod yn bresennol ac ati.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ffoniwch Gyngor Sir Powys ar 01874 612361

<u>Cynhyrchu Sudd neu Seidr i'w werthu:</u>

Os ydych chi'n bwriadu rhannu'ch cynnyrch gyda rhywun arall, neu am werthu'ch cynnyrch mae'n rhaid i chi gofrestru'r lleoliad cynhyrchu. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw le y byddwch chi'n ei ddefnyddio i brosesu ffrwythau - y gegin neu'r sied yn yr ardd neu offer cynhyrchu ar drelar.

1. Mae'n rhaid cofrestru'r lleoliad lle byddwch chi'n cynhyrchu'r cynnyrch gydag adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys o leiaf **28 diwrnod cyn dechrau cynhyrchu.**
2. **Ffoniwch adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Powys ar 01874 612361.** Byddant yn gofyn i chi lenwi Ffurflen Gofrestru, a gallant awgrymu rhai camau i chi eu cymryd cyn yr ymweliad er mwyn i'ch lleoliad fod yn barod ar eu cyfer.
3. Byddant yn trefnu ymweld â'ch safle, ac mae'n bosibl y byddant yn cynnig rhai awgrymiadau i chi ar sut i wella'ch man gwaith, a bydd yn cadarnhau manylion cofrestru terfynol eich lleoliad.
4. Mae Ffurflen Gofrestru Cyngor Sir Powys ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Cymoedd Gwyrdd.
5. Ar ôl i chi gofrestru'ch man cynhyrchu gallwch ddechrau creu'ch sudd!

<u>HACCP</u>

- Bydd angen cynllun Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) sylfaenol ar gyfer y man gwaith. Mae hwn yn amlinellu'r

canllawiau rydych chi'n bwriadu eu dilyn i gadw'r cynnyrch yn ddiogel i'w yfed.
- Dim ond cynllun syml sydd ei angen ar gyfer y lefel hon o gynhyrchu a bydd yn ffordd o'ch amddiffyn chi fel cynhyrchydd os bydd rhywun yn cwyno am eich cynnyrch. Bydd yn brawf bod y canllawiau cywir ar waith a'ch bod yn eu dilyn yn gywir.
- Mae enghraifft o gynllun HACCP syml ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Cymoedd Gwyrdd a gellir ei ddefnyddio fel templed ar gyfer eich gwaith cynhyrchu.

Labelu:

- Mae labelu'ch cynnyrch yn bwysig iawn ac mae angen cynnwys rhai eitemau penodol. Mae yna ganllawiau ar sut i wneud hyn yn iawn.
- **Ffoniwch Adran Safonau Masnach Cyngor Sir Powys – Nicki Davies-Wheeler ar 01874 612053**.
- Mae deddf **Pwysau a Mesurau** yn golygu bod yn rhaid i'ch cynnyrch arddangos cynnwys alcohol ac union swm eich cynnyrch yn glir.
- Mae yna nodiadau cyfarwyddyd ac enghreifftiau o sut i labelu'ch cynnyrch yn gywir ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho o adran Aelodau gwefan y Cymoedd Gwyrdd.

Trwyddedu:
Dim ond yn berthnasol i gynhyrchwyr seidr a diodydd alcoholaidd eraill.
- **Ffoniwch Josie Evans o Adran Drwyddedu Cyngor Sir Powys ar 01874 612263**. Mae pob trwydded yn benodol i leoliad a gwerthwr, felly siaradwch â Josie er mwyn gwybod beth sydd angen i chi ei wneud.
- Rhai awgrymiadau sylfaenol:
    - Bydd angen Trwydded Safle ar y lleoliad lle gwerthir y cynnyrch, sy'n para am 12 mis.
    - Bydd y gwerthwr unigol HEFYD angen Trwydded Bersonol, yn amodol ar wiriad gan yr heddlu a chymhwyster.
    - Gellir defnyddio Trwydded Digwyddiadau Achlysurol (Hysbysiad Digwyddiadau Dros Dro) ond dim ond 5 y flwyddyn a roddir i'r gwerthwr.
    - Mae'n ddefnyddiol nodi bod gan Farchnadoedd Ffermwyr eu Trwyddedau Lleoliad eu hunain fel arfer ac felly maent yn lleoliadau da i werthu'ch cynnyrch.
- Mae'r holl wybodaeth gan Gyngor Sir Powys ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho yn adran Aelodau gwefan y Cymoedd Gwyrdd.

Gwyliwch yr halogyddion…

Patulin yn arbennig, sef tocsin a gynhyrchir gan lwydni mewn afalau drwg. Dim ond mewn sudd afal y gallwch chi gael y tocsin gan fod y broses eplesu i wneud seidr yn ei ladd. Ni fydd ychydig iawn ohono'n achosi niwed. Gallwch osgoi llawer iawn ohono yn eich sudd afal drwy ddefnyddio afalau da yn unig, rhai y byddech yn eu bwyta eich hun. Peidiwch â defnyddio afalau sydd wedi

pydru neu hanner pydru. Cewch ragor o wybodaeth am hyn o dan 'Patulin' ar wefan y Cymoedd Gwyrdd.

Pob Lwc gyda'r sudd!

Darparwyd y nodiadau hyn er gwybodaeth yn unig ac ni ddylid eu hystyried fel esboniad cyflawn o'r gyfraith.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development Fund